CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**21.01.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; GW; TAJ; JOJ; RJ; EO; DL;<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DP; AR; BJ<br>**Mynychu:** SWR |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd GW/DW ddiddordeb mewn Eitem 6 Materion Cyllidol a Thaliadau. |
| 3 | **Cofnodion 26 11 20**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 26 Tachwedd 2020 fel rhai cywir (TAJ/EO)<br>b) Materion yn codi – dim<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 21.01.21 |
| 4 | **Rheolaethu**<br>➢ **Sedd Wag**<br>Nododd y Cadeirydd bod un wedi dangos diddordeb yn y sedd wag ond nid oedd wedi cael cyfle i drafod ymhellach - ymlaen i gyfarfod mis Chwefror 21.<br>➢ **Polisi'r Fynwent**<br>Cyflwynodd y Clerc adolygiad i Bolisi'r Fynwent yn cyfeirio at gyfrifoldebau i sicrhau bod y cerrig beddi yn saff a diogel. Cytunwyd a'r diwygiad yn unfrydol. |
| 5 | **Materion Trwy'r Gadair**<br>JOJ - cyfeiriodd at y goryrru a'r angen i edrych ar y troadau perygl ar hyd y ffordd trwy Garmel. Nododd bod 3 damwain ddrwg wedi digwydd ar y ffordd dros gyfnod y Nadolig. Mynegwyd pryder am ddiogelwch y |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | plant sy'n teithio ar hyd y ffordd i'r Ysgol yn ddyddiol.<br><br>Cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc gysylltu â Phennaeth Priffyrdd i fynegi'r pryderon a chopïo ein Cynghorwyr i'r e-bost.<br><br><br>JAJ - cyfeiriodd at arian wrth gefn yng nghronfa Ysgol Haearn. Awgrymodd holi'r Ysgol Gynradd os oes ganddynt anghenion yng ngoleuni'r cyfnod dysgu o bell oherwydd COVID 19. Nododd y Clerc ei bod wedi crebwyll hyn gyda'r Pennaeth ond heb gael ymateb hyd yma. Cytunwyd yn unfrydol i gynnig y gefnogaeth ariannol yma. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br>**Gwariant ers cyfarfod Tachwedd:**<br>Scottish Power **–** trydan CPD - £42.25<br>Swyddfa Archwilio – cyfrifon 2019/20 - £230.60<br>Huw Roberts Cerrig Beddi Amlwch – trwsio carreg fedd - £234<br>MSI Alarms - archwiliad safle Stesion - £100.80<br>Avanti Gas - archwilio'r boiler - £94.50<br>Carolyn Owen - Microdon newydd i'r Caffi - £527.99<br>Glasfryn, Pwllheli – archebu Coeden Dolig - £164.40<br><br>**Biliau cyfredol:**<br>Williams Bros / Mr Emlyn Williams - costau casglu a gosod y Goeden 'Dolig – hyn yn cynnwys pres petrol - £145<br>Rhys Williams – cytundeb torri gwair - £2590<br>Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r uchod.<br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol gyda cais i gynnal Is-Bwyllgor Cyllid pan fydd Mr Eryl Williams yn rhydd.<br><br>**Gosod Praesept**<br>Cafwyd trafodaeth eang ar osod y Praesept ar gyfer 2021/22. Nodwyd bod taliad praesept Llannerchymedd yn llai na nifer o ardaloedd eraill ar yr Ynys sydd hefo llai o drigolion ac adnoddau i'w cynnal a'u cadw.<br>Cytunwyd yn unfrydol i godi'r praesept – DW/JOJ<br>Cytunwyd i'w godi 4% a fyddai yn golygu taliad blynyddol o £18,192 sef £700.09 o godiad blynyddol ers 2020/19. Clerc ac TAJ i cwblhau'r broses cyn y terfyn amser. |
| **7** | **Unrhyw Fater Brys Arall**<br>➢ Cytunwyd i'r Clerc holi Mrs Eirlys Jones Carmel am drefniadau torri gwair Mynwent Carmel ac adrodd yn ôl i gyfarfod mis Chwefror.<br>➢ Cytunwyd mewn egwyddor i gais Grŵp LlanNi i gael gosod EVCP (*Electronic Vehicle Connection Point*) ar safle'r Stesion.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.10* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**    Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com